# Anffaeledig belenni "Dryg Bach y Port"

Gan DEWI WILLIAMS



FFEITHIAU NOETH!
Prawf parhaus am 60 mlynedd!

PELENAU JONES TREMADOG
(Jones Tremadoc Pills),

SEF YR HEN FEDDYGINIAETH GYMREIG ADNABYDDUS ag sydd wedi SEFYLL PRAWF agos i driugain mlynedd yn y Deyrnas hon a Chyfandiroedd Ewrop, fel nad oes braidd Deulu yn Nghymru na chlywsant eu Tadau a'u Teidiau yn son am eu rhinweddau at wellhau pob Afiechyd sydd a'i tarddiad o'r Ystumog a'r Afu ac Anmhuredd y Gwaed, a'r dolur cyffredin a chyndyn hwnw, y Crydcymalau.

Gwerthir gan yr holl Wholesale Houses, a manwerthir gan bob Chemist drwy y byd gwareiddiedig mewn Blychau 1s. 1½c., 2s. 6c., a 4s. yr un. Os methir eu cael yn yr ardal, anfonir hwynt ar dderbyniad eu gwerth mewn stamps o'r

CAMBRIAN PILL DEPOT,
TREMADOC, NORTH WALES.

D.S.—Nid oes llai na Box cyfan o'r Pills hyn i'w cael,

BALM IREIDDIOL JONES
TREMADOG
(JONES' PECTORAL BALSAM)
Rhag y Peswch, yr Anwyd, Caethder, Diffyg Anadl, Attalfa yn y Frest, Crygni, Influenza, y Pas ar Blant ac ereill, &c.

PAROTOIR (YN UNIG) GAN
ROBERT ISAAC JONES
(ALLTUD EIFION),
TREMADOG.

Y TO[...]
NERV[...]
NE[...]
DDIFERION E[...]
JONES,

*Yr hwn sydd Feddyginiaeth sicr i'r Ddanodd; ac a ddyru esmwythdra dioed i'w phoenau mwyaf dirdynawl—Gwaew yn ngewynau'r Gwyneb, a elwir Neuralgia; Dolur Pen Gewynol, Tic Doloureux, &c.*

Ar werth mewn Potell am 7½c. a 1s. 1½c. yr un.
Parotoir (yn unig) gan
Robert Isaac Jones, Tremadog.

AFRLLADENAU
*JONES (TREMADOG),*
JONES' WORM LOZENGES,

Ydynt ddarpariaeth ddiogel ac effeithiol er gwellhau y rhai a flinir gan y LLYNGYR, yn blant a rhai mewn oedran. Mae'r Afrlladenau yn wynion eu lliw, yn felus i'r archwaeth, ac felly yn hawdd i blant eu cymeryd. Ni oes ynddynt *Calomel*, nac un sylwedd mwnol arall, ond cyfansoddiad Llysieuol ydynt, hollol ddiberygl i'r plentyn gwanaf. *Pris 9c., a 1s. y Box.*

ENAINT EURAIDD JONES.
At holl Ddoluriau y Llygaid.—Mewn Potiau, 6c., a 1s. yr un.
D.S.—Os bydd anhawsder cael rhai o'r meddyginiaethau hyn mewn ardal, anfoner eu gwerth mewn Stamps, yn nghydâ dau Stamp at eu cludiad, ac anfonir hwynt gyda'r *Post* yn ddi-doll.

POWDR AC ELI LLYSIEUOL
JONES (TREMADOG)
I IACHAU Y PEILS.

OS YW llwyddiant gŵr mewn busnes i'w briodoli i'r cyhoeddusrwydd a neilltua iddo yna fe ddylai ymdrech Alltud Eifion i hysbysebu ei feddyginiaethau fod wedi ei godi i rengoedd y goludog yn y ganrif olaf. Go brin y gwnaeth hynny ond ni allai neb a ddarllenai'r newyddiaduron a chyfnodolion ddianc oddi wrth y datganiadau am rinweddau cynhyrchion fferyllydd o Dremadog at bob anhwylder dan haul.

Sefydlodd Robert Isaac Jones (Alltud Eifion) y "*Cambrian Pill Depot*" ar sgwâr Tremadog yn 1838. Bwriodd ei brentisiaeth gyda fferyllydd o'r enw David Williams ym Mhwllheli. Ond nid oes tystiolaeth ei fod wedi dysgu dirgelion y meddyginiaethau anffaeledig gan ei feistr cyntaf.

Yn ei hysbyseb arferol cyfeiria at un o'i wehelyth, y Dr W Lloyd Roberts, Oakland, Llanrwst fel darganfyddwr y rhinweddau a ymgorfforwyd yn y pelenni. Yr oedd W Lloyd Roberts yn un o feddygon enwog Isallt Fawr, Cwm Pennant ac ymfalchiai Alltud Eifion yn ei gysylltiad â'r cyff.

Ymysg ei bapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol mae casgliad o dystlythyrau, llythyrau canmol a phrofion ymarferol o effeithiolrwydd pelenni "*aperient and anti-bilious*" Jones tros gyfnod o ddeugain mlynedd gan gwsmeriaid a fodlonwyd. Yn naturiol gwneid defnydd o rai ohonynt mewn hysbysebion.

Yn ei ddarlith "Meddygon a Gwyddonwyr Eifionydd" (Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd 1984) dyfynna O E Roberts o lythyrau o'r fath a gyhoeddodd y fferyllydd. Tystia Hugh Davies Lerpwl iddo "iachau agos yn wyrthiol" wedi i feddyg "ei ystyried yn anfeddyginiaethol".

Ac yn goron ar y cwbl cafwyd y dystiolaeth ffafriol gan un Benjamin Travers, "Meddyg ei Mawrhydi ein Grasusaf Frenhines. Syr, y mae cyfansoddiad eich pelenni, y fath mor ragorol, fel nas gall eu heffeithioldeb fod yn achos o amheuaeth gennyf". Pair hyn i O E Roberts ddyfalu "ai llyncu pelenni Tremadog a roddodd gyfansoddiad mor gryf a hir hoedl i Victoria?"

* * *

BETH mewn difrif oedd cyfrinach y feddyginiaeth ryfeddol a gynigid gan y pilmon o Dremadog? Nid oedd i'w datgelu ar unrhyw gyfrif wrth gwrs. Yn un o'i gylchlythyrau arbennig awgrymir yn gynnil na chynhwysid mercwri o gwbl yn y pelenni ond yn unig "*the most rare and expensive vegetable preparation of the British pharmacopeia*" ac yn binacl i'r cyfan "*a valuable Snowdonian herb*".

Dyma sefydlu'r cysylltiad anhepgorol rhwng y feddyginiaeth a'r amgylchedd. Dibwrpas hollol fyddai ceisio ail-greu'r fformiwla mewn rhan arall o'r wlad heb y deunydd angenrheidiol yma.

Digon dilornus, fodd bynnag, oedd Thomas Jones (Cynhaearn) cyfreithiwr llengar o Borthmadog, o effeithiolrwydd y feddyginiaeth. Yn ôl Myrddin Fardd taerai mai "piswail defaid" oedd y brif elfen yng ngwneuthuriad pelenni ei gyfaill. Priodolir y disgrifiad "dryg bach" i Cynhaearn neu Richard Roberts, Bardd Treflys.

Datganodd y gwneuthurwr fod "enw da a gwerthiant helaeth y pelenni trwy'r deyrnas" yn cymell "rhai unigolion anegwyddorol i geisio eu hefelychu." Rhaid oedd i bawb fod ar eu gwyliadwriaeth rhag ffug-belenni.

Manteisiodd Cynhaearn ar y sefyllfa yma er mwyn dipyn o hwyl. Aeth y ddau i Landrindod ar ymweliad ac yn ôl ei arfer cludodd y fferyllydd ei fag samplau gydag ef. Ymwelodd Cynhaearn â siopau fferyllwyr y dref o flaen ei gyfaill gan eu rhybuddio fod twyllwr o gwmpas yn honni mai ef oedd Robert Isaac Jones. Nid oeddynt i archebu ganddo ar unrhyw gyfrif.

Bu cryn helynt pan ymddangosodd y "twyllwr" a bu'n rhaid i Cynhaearn dystio i'r heddlu mai Robert Isaac Jones ydoedd mewn gwirionedd.

Dro arall pan ar daith i ddinas Lerpwl i ledaenu'r wybodaeth am y pelenni rhyfeddol adroddir i'r pilmon ymarfer un o'r ystrywiau gwerthu adnabyddus. Trefnodd i rai o'i gydnabod alw mewn siopau fferyllwyr a holi am bils anffaeledig Tremadog. Wrth gwrs nid oeddynt mewn stoc, ond pan alwodd y gwneuthurwr ei hun o fewn ychydig amser gyda'i fag samplau, cafodd lu o archebion.

* * *

TYSTIODD y diweddar E Hugheston Roberts i dechnoleg unigryw y "*Pill Depot*". Dichon y gellid ei ddisgrifio fel yr enghraifft gyntaf o gynhyrchu torfol yn Eifionydd. Pan oedd yn blentyn yn ystod nawdegau'r ganrif câi ef a'i gyfeillion eu gwahodd i mewn i'r fferyllfa pan fyddai hwyliau go dda ar yr hen bilmon.

Eu prif bleser fyddai cael troi breichiau y peiriannau a gwirioni wrth i'r pelenni saethu allan ohonynt ar gyfer eu cynnwys, "*in a turned wood box, wrapped up in green paper, sealed with the proprietor's seal, bearing the signature of R.I.J. on the government stamp.*"

Yna byddent yn barod at wasanaeth y "*Faculty, Nobility, Clergy and Public at large*" oedd yn noddwyr mor hael i gynnyrch y fferyllfa yn ôl tystiolaeth y cylchlythyr.

Nid wyf yn sicr pa bryd yr edwinodd y diwydiant nodedig yma yn Nhremadog: er i'w fab ieuengaf, Edward Christmas Jones etifeddu'r busnes ar farwolaeth ei dad yn 1905, amheuaf a oedd cymaint o fynd ar y feddyginiaeth ym mlynyddoedd olaf Alltud Eifion.

Mawr hyderaf erbyn yr ymddengys y cyfraniad yma y bydd y llechfaen a godwyd i goffau'r fenter yn ôl yn ei phriod le. Torrwyd hi'n ddamweiniol rai blynyddoedd yn ôl wrth addasu adeilad y "*Pill Depot*" fel canolfan gymdeithasol.

Addawodd y pwyllgor ei hail-osod erbyn Eisteddfod Bro Madog fel y gall y genedl dalu gwrogaeth i gynhyrchu y pils diarhebol eu daioni at bob anhwylder ac aflwydd a allai daro dyn.